EUSC06

Cynllunio, rheoli ac adolygu cydymffurfiad deddfwriaethol a diogelwch ar gyfer gwaith mewn mannau cyfyng

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli cydymffurfiad deddfwriaethol a diogelwch ar gyfer gwaith mewn mannau cyfyng. Mae man cyfyng yn unrhyw le, gan gynnwys unrhyw siambr, tanc, cerwyn, seilo, pwll, ffos, pibell, carthffos, ffliw, ffynnon neu fan tebyg lle ceir risg benodol y gellir ei rhagweld yn rhesymol oherwydd ei natur gaeedig. Gallai'r risgiau arwain at anaf difrifol neu farwolaeth o ganlyniad i dân, ffrwydrad, nwy, mygdarthau, anwedd, diffyg ocsigen, lefelau cynyddol o hylif, mygu neu gaethiwo gan solidau sy'n llifo'n rhydd.

Mae'n cynnwys cynllunio, trefnu a rheoli gwaith yn ddiogel mewn mannau cyfyng gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau deddfwriaethol, ystyriaethau iechyd a diogelwch a gofynion o ran cyfarpar. Mae'n cynnwys:

- cymhwyso gofynion deddfwriaethol a diwydiant perthnasol ar gyfer mannau cyfyng
- datblygu asesiadau risg
- penderfynu ar gamau rheoli addas
- datblygu systemau gwaith diogel
- sefydlu gweithdrefnau effeithiol ar gyfer defnyddio trwyddedau i weithio
- datblygu trefniadau effeithiol ar gyfer argyfyngau
- gweithredu a chynnal trefniadau effeithiol ar gyfer storio, adolygu ac archwilio dogfennau.

Mae'r safon hon ar gyfer rheolwyr sy'n gyfrifol am drefnu, cynllunio a rheoli cydymffurfiad deddfwriaethol a diogelwch ar gyfer gwaith mewn lleoedd cyfyng. Ni fydd y rheolwr o reidrwydd yn goruchwylio'r gwaith o dan sylw.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. nodi gweithgareddau gwaith sy'n cynnwys mannau cyfyng
2. penderfynu ar ddosbarth y mannau cyfyng ar sail eu disgrifiad a'r tasgau gwaith pan fo hynny'n berthnasol
3. nodi'r cymwyseddau sy'n ofynnol i ddatblygu systemau gwaith diogel ac effeithiol i reoli gweithgareddau gwaith mewn mannau cyfyng
4. cael gwybod beth yw'r gofynion deddfwriaethol a sefydliadol ar gyfer gweithgareddau gwaith a gynhelir mewn mannau cyfyng
5. pennu'r nifer lleiaf o bobl sydd eu hangen i ymgymryd â gweithgareddau gwaith mewn mannau cyfyng
6. datblygu a gweithredu systemau gwaith addas a digonol ar gyfer mannau cyfyng
7. nodi cymwyseddau'r bobl sydd eu hangen i weithio ym mhob man cyfyng a nodwyd
8. penderfynu pryd a sut y dylid defnyddio trwyddedau i weithio mewn mannau cyfyng
9. cadarnhau bod yr holl bobl berthnasol yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau
10. monitro, archwilio ac adolygu systemau gwaith diogel yn ôl yr angen
11. nodi peryglon sy'n gysylltiedig â gweithio mewn mannau cyfyng gan gynnwys pwy allai gael ei niweidio a sut
12. gwerthuso risgiau a nodi'r camau rheoli sydd eu hangen i'w lliniaru
13. cofnodi canfyddiadau asesiadau risg mewn dogfennaeth briodol
14. adolygu a diweddaru asesiadau risg yn ôl yr angen i gynnal iechyd a diogelwch ar gyfer gwaith mewn mannau cyfyng
15. defnyddio asesiadau risg i bennu'r math a nifer y camau rheoli ar gyfer peryglon penodol mewn mannau cyfyng er mwyn sicrhau bod iechyd a diogelwch yn cael eu cynnal
16. pennu'r profion angenrheidiol er mwyn gwirio effeithiolrwydd camau rheoli ar gyfer y peryglon mewn mannau cyfyng
17. nodi'r gweithdrefnau sy'n ofynnol ar gyfer gweithio'n ddiogel mewn mannau cyfyng
18. pennu'r cofnodion sy'n gysylltiedig â'r camau rheoli a pha mor aml y caiff y rhain eu hadnewyddu a'u hadolygu
19. pennu cyfansoddiad, cymwyseddau a galluoedd corfforol a niferoedd y timau gwaith i allu gweithio mewn mannau cyfyng gan ddefnyddio dulliau rheoli cydnabyddedig

20. nodi'r cyfarpar arbenigol i reoli peryglon a ganfyddir a rhai a ragwelir
21. pennu'r drefn ar gyfer sefydlu, dilysu a chynnal camau rheoli peryglon a rhoi gwybod i'r tîm gwaith amdanynt
22. sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer delio â sefyllfaoedd argyfwng a allai godi
23. pennu cwmpas y gwaith sy'n gorfod cael trwyddedau i weithio mewn mannau cyfyng
24. nodi'r gweithwyr sydd eu hangen i weithredu'r camau rheoli a ddarperir gan drwyddedau i weithio
25. cwblhau'r cofnodion a'r dogfennau angenrheidiol sy'n ofynnol gan drwyddedau i weithio
26. sefydlu gweithdrefn er mwyn sicrhau bod timau gwaith yn cael eu hysbysu ynglŷn â'u rôl/rolau a'u dyletswyddau o dan drwyddedau i weithio
27. pennu'r ymatebion argyfwng sy'n ofynnol ar gyfer tasgau penodol sydd wedi cael asesiad risg mewn mannau cyfyng
28. pennu trefniadau addas a digonol ar gyfer cymorth cyntaf
29. sicrhau bod gan yr holl weithwyr perthnasol y cymhwysedd a'r awdurdodiad perthnasol ar gyfer eu rôl
30. sicrhau bod timau gwaith ac unrhyw gynorthwywyr allanol yn deall y gweithdrefnau ymateb i argyfwng a'r trefniadau cymorth cyntaf
31. cwblhau dogfennaeth am fannau cyfyng a'u cadw yn unol â gofynion deddfwriaethol a sefydliadol
32. adolygu'r dogfennau a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau gwaith mewn mannau cyfyng er mwyn sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cynnal
33. cynnal archwiliadau o'r system reoli a ddefnyddir i reoli gweithgareddau gwaith mewn mannau cyfyng er mwyn sicrhau bod cydymffurfiad statudol yn cael ei gynnal
34. cynnal cymwysterau a hyfforddiant parhaus ar gyfer y rôl hon yn unol â gofynion deddfwriaethol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. prif egwyddorion mannau cyfyng cyfredol, iechyd a diogelwch a deddfwriaeth a rheoliadau amgylcheddol
2. codau ymarfer, canllawiau a safonau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer gweithio mewn mannau cyfyng
3. yr ystod o asesiadau risg a allai fod angen eu cynhyrchu i gydymffurfio â gweithgareddau gwaith a gynhelir mewn man cyfyng
4. y ddyletswydd ddeddfwriaethol a roddir i gyflogwr, rheolwr, goruchwyliwr a gweithredwr sy'n gysylltiedig â gweithgareddau gwaith mewn man cyfyng
5. gofynion sefydliadol sy'n berthnasol i weithgareddau gwaith mewn man cyfyng
6. y broses 5 cam o gynhyrchu asesiadau risg
7. y peryglon sy'n gynhenid i fan cyfyng wrth ymgymryd â gweithgareddau gwaith
8. y peryglon sy'n cael eu trosglwyddo i fan cyfyng wrth ymgymryd â gweithgareddau gwaith
9. yr hierarchaeth sy'n ofynnol gan statudau ar gyfer rheoli peryglon
10. cynlluniau dosbarthu ar gyfer cymhlethdod mynediad
11. sut i bennu difrifoldeb peryglon a lefelau risg
12. y grwpiau o bobl sy'n debygol o gael eu heffeithio gan weithgareddau gwaith sy'n gysylltiedig â mannau cyfyng
13. y cymwyseddau sy'n ofynnol ar gyfer gweithwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau gwaith mewn mannau cyfyng gan gynnwys gwaharddiadau meddygol, ffactorau dynol, materion ergonomig
14. mathau o systemau awyru gan gynnwys o dan ba amgylchiadau y byddai defnyddio'r rhain yn fwyaf effeithiol
15. yr offer monitro amgylcheddol sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau gwaith mewn mannau cyfyng
16. y cyfundrefnau monitro amgylcheddol sy'n ofynnol i allu gwneud gwaith yn ddiogel
17. y cyfarpar sydd ar gael ar gyfer mynd i mewn i fannau cyfyng
18. y cyfarpar a'r offer y gellir eu defnyddio yn yr amgylchedd gwaith o dan sylw
19. sut i wneud yn siŵr bod y cyfarpar a'r offer yn addas at y diben
20. y cyfarpar anadlol amddiffynnol sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau gwaith mewn mannau cyfyng

21. y cyfarpar anadlol amddiffynnol personol sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau gwaith mewn mannau cyfyng
22. y camau perthnasol ar gyfer rheoli "risgiau penodedig" yn effeithiol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau gwaith mewn mannau cyfyng
23. sut i werthuso effeithiolrwydd y camau rheoli sydd ar waith ar hyn o bryd a'r rhai arfaethedig
24. gweithdrefnau diheintio
25. yr elfennau sydd eu hangen ar gyfer system ddiogel a dulliau gweithio
26. y ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael i helpu i ddatblygu dull diogel o weithio
27. y drefn ar gyfer cynnal gweithgareddau gwaith mewn mannau cyfyng
28. y cyfarpar sydd ei angen i ymgymryd â gweithgareddau gwaith mewn mannau cyfyng
29. rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n ymwneud â gweithgareddau gwaith mewn mannau cyfyng
30. y dulliau cyfathrebu sy'n addas ar gyfer gweithgareddau gwaith mewn mannau cyfyng
31. pryd y dylid rhoi trwyddedau i weithio
32. sut i roi trwyddedau i weithio
33. perthnasedd trwyddedau i weithio ar gyfer gweithgareddau mewn mannau cyfyng
34. yr elfennau sydd eu hangen ar gyfer trwyddedau i weithio
35. rolau a chyfrifoldebau'r gweithwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau mewn mannau cyfyng o dan system trwydded i weithio
36. sut gall sefyllfaoedd argyfwng godi mewn mannau cyfyng
37. rolau a chyfrifoldebau gweithwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau gwaith mewn mannau cyfyng pe byddai argyfwng yn codi
38. systemau cyfathrebu ac adrodd ar gyfer sefyllfaoedd argyfwng
39. y gweithdrefnau ar gyfer mynd i'r afael ag argyfyngau
40. y cyfarpar achub y gellir ei ddefnyddio mewn mannau cyfyng
41. y camau cymorth cyntaf y gellir eu defnyddio mewn mannau cyfyng
42. y gweithdrefnau ar gyfer mynd i'r afael â'r hyn sy'n digwydd o ganlyniad i argyfwng
43. y systemau adrodd ar gyfer gweithgareddau gwaith arferol a datrys problemau
44. y prosesau a ddefnyddir i bennu pa mor aml y caiff asesiadau risg

eu hadolygu

45. pa mor aml y mae angen cynnal hyfforddiant parhaus ar gyfer y rôl hon a sut a ble i gael mynediad ato

EUSC06

Cynllunio, rheoli ac adolygu cydymffurfiad deddfwriaethol a diogelwch ar gyfer gwaith mewn mannau cyfyng

Datblygwyd gan	Energy & Utility Skills
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2020
Indicative Review Date	Mawrth 2025
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Energy & Utility Skills
RCU gwreiddiol	EUSCS06
Galwedigaethau perthnasol	Peiranneg; Adeiladu; Technegwyr Gwyddoniaeth a Pheirianneg
Cyfres/Set	Mannau Cyfyng
Geiriau Allweddol	Man cyfyng; risg uchel; risg ganolig; risg isel; risg benodol; cynllunio; trefnu; rheoli; adolygu; cydymffurfiad deddfwriaethol; cydymffurfio â diogelwch; systemau gwaith diogel; camau rheoli; trwyddedau i weithio; trefniadau argyfwng; gweithdrefnau